

Grant Cyfleusterau i'r Anabl

Nodiadau Canllaw i bobl sy'n Ceisio'r Grant

Mae dau fath gwahanol o'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn dibynnu ar natur y gwaith sydd ei angen. Sef Grant Cyfleusterau i'r Anabl **Hanfodol** neu Grant Cyfleusterau i'r Anabl **ar Ddisgresiwn**. Dim ond Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl **Hanfodol** sydd ar gael drwy Gyngor Dinas Casnewydd ar hyn o bryd.

Mae'r canlynol yn grynodedb o'r hyn y gallwch ei ddisgwyl wrth wneud cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl:

Cam 1

Bydd llythyr cydnabyddiaeth yn cael ei anfon atoch chi i nodi ein bod wedi derbyn eich ffurflen ymholiad.

Bydd y cyngor yn ymchwilio i weld p'un ai a oes modd i'r gwaith gael ei wneud dan Grant Cyfleusterau i'r Anabl ai peidio, ac edrych i weld a yw'r holl gwestiynau wedi'u hateb yn gywir. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi gydag unrhyw ymholiadau ynghylch eich atebion.

Cam 2

O'r wybodaeth a ddarperir gennych ar y ffurflen ymholiad, bydd Swyddog Cyswllt Cymdeithasol yn pennu a ydych yn debygol o fod â Benthyciad Fforddiadwy Tybiannol.

Bydd y Swyddog Cyswllt Cymdeithasol yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi ynghylch swm **cychwynnol** posib y Benthyciad Fforddiadwy Tybiannol. Golyga hyn efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cyfraniad at eich Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Fodd bynnag, dim ond ffigwr cychwynnol yw hwn ac mae'n agored i newid yn ystod y broses grant.

Cam 3

Yna, bydd eich manylion yn cael eu hanfon ymlaen at yr **Is-adran Therapi Galwedigaethol**. Gwneir cais i Therapydd Galwedigaethol ddod i ymweld â chi er mwyn cynnal asesiad ac i bennu os yw'r addasiad yn **angenrheidiol ac yn briodol** ar gyfer y person anabl.

Pan fydd y cais am ymweliad wedi'i wneud, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi. Fodd bynnag, mae gan yr Is-adran ThG system flaenoriaethu ei hun wrth bennu pryd fyddan nhw'n cynnal yr ymweliad.

Cam 4

Ar ôl ymweliad y Therapydd Galwedigaethol, bydd ffurflen anghenion, a elwir yn 'atgyfeiriad' yn cael ei hanfon ymlaen atom ni yn Tai Sector Preifat a chewch eich rhoi ar restr arolwg.

Cam 5

Pan ddaw eich tro chi i dderbyn arolwg, byddwn yn cysylltu â chi i drefnu ymweliad ar gyfer arolwg. Yn ystod yr ymweliad hwn bydd yr arolygydd yn asesu dichonolrwydd yr addasiadau a argymhellir.

Dim ond **Ymholiad Cychwynnol** yw'r ffurflen yr ydych eisoed wedi'i llenwi. Y cam nesaf fydd cyflwyno cais ffurfiol, a bydd y Swyddog Cyswllt Cymdeithasol yn rhoi manylion i chi ar sut mae gwneud hyn yn hwyrach ymlaen yn y broses grant.